communities *first* cymunedau *yn gyntaf*

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Mae Cymunedau yn Gyntaf wedi dod â llawer o fudd yn barod, yn cynnwys grwpiau cymunedol yn cael gafael ar dros £100,000 o arian drwy Gronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r arian hwn wedi'i ddefnyddio am bethau fel mân welliannau ac arolygon Neuaddau Pentref, llyfr am hanes Llanbrynmair, gwella cegin Clwb Rygbi Machynlleth, offer cerdd a llwyfan, gwyliau a digwyddiadau, iwnifform i'r côr, cyfrifiaduron ac offer swyddfa, hyfforddiant, camerâu digidol a fideo, a phrynu pabell fawr sydd wedi galluogi cynnal digwyddiadau cymunedol ym mhentref Penegoes.

Fel ardal Cymunedau yn Gyntaf, rydym hefyd wedi cael arian ar gyfer Canolfan Integredig i Blant, offer cae chwarae, cysgodfannau bws, camerâu CCTV a pheiriannau dŵr i'n hysgolion.

Mae bod yn un o'r tair ardal Cymunedau yn Gyntaf ym Mhowys yn ffactor sydd yn ddiamau, yn cyfrannu at ddenu rhaglenni cyllid eraill i'r ardal.

Mae'r saith adran ar y dudalen nesaf yn crynhoi beth mae Cynllun Gweithredu presennol Bro Ddyfi yn ei ddweud am y ffordd ymlaen.

Drwy ei grwpiau thematig, mae'r Bartneriaeth yn archwilio pa weithredoedd gall y gymuned fwrw ymlaen gyda hwy (efallai drwy grŵp gwirfoddol sy'n bodoli'n barod) a pha rai y gallwn ni ddisgwyl y byddant yn cael eu hariannu neu eu cyflwyno gan gyrff allanol. Byddwn yn canolbwyntio ar y gweithredoedd hynny a fydd o fantais i'r bobl mwyaf difreintiedig ac sy'n adeiladu hyder a medrau. I wneud mwy, rydym angen i chi ymuno â ni!

Gallwn anfon mwy o fanylion am bob un o'r saith thema atoch neu gallwch edrych ar ein gwefan ar: www.cymgyntafpowys.org.uk
Byddem yn falch o glywed eich barn.
Cysylltwch â ni yn: Cymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi, Ty Bro Ddyfi,
52 Heol Maengwyn, Machynlleth, Powys SY20 8DT
Ffôn: 01654 700315
E-Bost: Cyril@powys.gov.uk